

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod arbennig o'r Cyngor Llawn Nos Iau 31ain o Orffennaf 2019
yn Y Ganolfan, Glasinfryn am 7pm.

Agenda

Presennol:

Ymddiheuriadau:

Broses cyfethol i ward Faenol

Cyfarfod Ymgeisydd 1

Cyfarfod Ymgeisydd2

Trafodaeth/Penderfyniad

Ceisiadau Cynllunio

Fferm Treborth Uchaf LL57 2NX C19/0643/25/LL

Dymchwel estyniad presennola chodi estyniad deulawr yn ei le

Bryn Tirion Parc y Faenol LL56 4JX C19/0624/25/LL a C19/0625/25/CR

Trosi adeilad allanol yn uned wyliau

4 Tai'r Ysgol Treborth LL57 2RX C19/0668/25/LL

Estyniad unllawr tŷ fflat yn y cefn

Adeiladau Allanol Ysgol Treborth LL57 2RX C19/0669/25/LL

Trosi adeiladau cyn Ysgol Treborth yn llety myfyrwyr yn ystod y tymor ac unedau gwyliau yn ystod y gwyliau

Capel Bethmacca Glasinfryn LL57 4UN C19/0713/25/LL

Addasu capel segur i uned wyliau ynghyd a llecynnau parcio

Ty Menai a Llwyn Brain Parc Menai LL57 4HJ C19/0716/25/LL

Newid defnydd adeilad Dosbarth B1 Swyddfeydd i Ddefnydd Dosbarth D1 (sefydliad di-breswyl) ynghyd a llecynnau parcio ychwanegol llwybr cerdded, safle bws a rhodfa

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion Cyngor Llawn arbennig Nos Fercher 31^{eg} o Orffennaf 2019
yn Nghanolfan Glasinfryn am 7.00pm

Presennol:

Y Cyng. C. E Hughes, D Jones-Morris, B Jones, M Baines, J Pierce, T Anwyl-Williams, L James, H Griffiths
a M Lynch
E Jones (Clerc)

Ymddiheuriadau:

Y Cyng, J. Griffiths D W Jones,

Cadeirwyd gan Cyng Cynrig E Hughes.

Y Broses Cyfethol Cynghorydd i Ward y Faenol

Gan fod dau ymgeisydd wedi datgan diddordeb a rhoi eu enwau ymlaen i lenwi'r sedd wag ar Ward Faenol dim ond teg oedd gwahodd y ddau ymlaen i geisio canfod mwy amdanynt cyn gwahodd un ohonynt i ymgymeryd a'i dyledswydd.

Yn unigol, cyflwynodd y ddau eu cefndiroedd, a'u profiadau, a bu yn orchwyl anodd gwahaniaethu rhwng y ddau ar ol iddynt adael.

Penderfynwyd cynnig y sedd wag i Eleri Jones oherwydd roedd yn meddu ar amrediad o brofiadau perthnasol ynghyd a gwybodaeth o asiantaethau yn y sector breifat a chyhoeddus fyddai o fudd i waith Cyngor Cymuned Pentir.

Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn cysylltu a'r ddau ymgeisydd fore drannoeth i ddatgan penderfyniad y Cyngor.

Ceisiada Ceisiadau Cynllunio

1.Fferm Treborth Uchaf LL57 2NX C19/0643/25/LL

Dymchwel estyniad presennola chodi estyniad deulawr yn ei le **Dim Gwrthwynebiad**

2. Bryn Tirion Parc y Faenol LL56 4JX C19/0624/25/LL a C19/0625/25/CR

Trosi adeilad allanol yn uned wyliau

Dim Gwrthwynebiad

3. 4 Tai'r Ysgol Treborth LL57 2RX C19/0668/25/LL

Estyniad unllawr tô fflat yn y cefn

Dim Gwrthwynebiad

4. Adeiladau Allannol Ysgol Treborth LL57 2RX C19/0669/25/LL

Trosi adeiladau cyn Ysgol Treborth yn llety myfyrwyr yn ystod y tymor ac unedau gwyliau yn ystod y gwyliau yn unfrydol **Gwrthwynebu** ar y sail fod

yna ormodedd o lefydd letyau myfyrwyr ym Mangor yn dai yn ogystal a hosteli a hynny hefyd yn ol darogan y bydd gostyngiad yn y niferoedd fydd yn dod i Fangor

5. Capel Bethmacca Glasinfryn LL57 4UN C19/0713/25/LL

Addasu capel segur i uned wyliau ynghyd a llecynnau parcio

Tra nad oedd fawr o bwynt na sail cynllunio i wrthwynebu mynegwyd pryder bod cymaint o unedau/tai/carafanau/Tai B&B gwyliau o gwmpas a faint mae'r economi lleol yn elwa.

6. Ty Menai a Llwyn Brain Parc Menai LL57 4HJ C19/0716/25/LL

Newid defnydd adeilad Dosbarth B1 Swyddfeydd i Ddefnydd Dosbarth D1 (sefydliad

di-breswyl) ynghyd a llecynau parcio ychwanegol llwybr cerdded, safle bws a rhodfau Cynllunio

Tra nad oedd sail i wrthynebu y cais cynllunio yma mynegwyd pryder ynglyn a'r cais gan ei fod yn golygu llawer iawn mwy o draffig yn mynd i mewn ag allan o Parc Menai ar y gylchfan Bont Britannia sydd eisioes yn dioddef tagfeydd aruthrol ar rai amserau o'r dydd. Cwestiynwyd hefyd pwrpas anfon y cais atynt hefyd gan ei bod yn eitha amlwg fod y cais yn mynd i fynd rhagddo beth bynnag gan fod safle Coleg Menai Bangor eisioes wedi ei ddymchwel